

## **Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl**

### **Annibynnol (Dirybudd)**

**Tŷ Cwm Rhondda, Priory  
Healthcare and  
Partnerships in Care  
(Rhondda) Limited**

**Dyddiad Arolygu: 13 a 14 Rhagfyr 2016**

**Dyddiad Cyhoeddi: 15 Mawrth 2017**

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

|    |                                           |    |
|----|-------------------------------------------|----|
| 1. | Cyflwyniad.....                           | 2  |
| 2. | Cyd-destun.....                           | 4  |
| 3. | Crynodeb .....                            | 6  |
| 4. | Canfyddiadau .....                        | 8  |
|    | Ansawdd profiad y claf .....              | 8  |
|    | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ..... | 13 |
|    | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....  | 21 |
| 6. | Methodoleg .....                          | 26 |
|    | Atodiad A.....                            | 28 |

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad dirybudd o wasanaethau iechyd meddwl Tŷ Cwm Rhondda ar 13 a 14 Rhagfyr 2016. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Cilliad
- Clydwch

Ymchwiliodd AGIC i sut roedd Tŷ Cwm Rhondda yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut y mae'r gwasanaeth yn bodloni gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da.

<http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau reolwr arolygu AGIC (yr oedd un ohonynt yn arwain yr arolygiad), dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl a enwebwyd), ac adolygydd lleig.

Yn ystod ein harolygiadau, rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- **Ansawdd profiad y claf:** Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:** Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:** Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Tŷ Cwm Rhondda yn amgylchedd diogelwch isel/ysbyty annibynnol a adeiladwyd yn bwrpasol sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn Ystrad, Cwm Rhondda yn ne Cymru.

Cofrestrwyd Tŷ Cwm Rhondda gydag AGIC yn gyntaf ym mis Hydref 2007. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i ddarparu gofal nyrsio diogelwch isel<sup>2</sup> a gwasanaethau triniaeth ar gyfer uchafswm o 20 o gleifion sydd â salwch iechyd meddwl a/neu anhwylder personoliaeth.<sup>3</sup> Mae unigolion o'r fath yn agored i gael eu cadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae pob un o'r ddwy ward yn yr ysbyty yn darparu llety ar gyfer uchafswm o ddeg cleifion gwrywaidd. Mae un ward wedi'i lleoli ar y llawr daear, ac mae'r un arall wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf. Roedd 17 o gleifion yn derbyn gofal yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm sy'n cynnwys rheolwr cofrestredig (sydd hefyd yn nyrs gofrestredig a gyflogir fel y Cyfarwyddwr Ysbyty), nyrs practis (gofal sylfaenol), sy'n sicrhau bod anghenion iechyd corfforol cleifion yn cael eu diwallu ynghyd â'u hanghenion iechyd meddwl, a thîm o nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth a staff gwasanaethau gwesty/cynnal a chadw.

### Y tîm amlddisgyblaethol

Mae Tŷ Cwm Rhondda hefyd yn cyflogi tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys:

- Clinigydd cyfrifol (1.00 cyfwerth ag amser llawn)

---

<sup>2</sup> Mae unedau diogelwch isel yn cynnig gofal, triniaeth a chymorth i gleifion sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a dwys nad oes modd eu trin yn ddiogel mewn cyfleuster gofal agored ar gyfer adfer cleifion mewnol.

<sup>3</sup> **Anhwylderau personoliaeth** yw cyflyrau lle mae unigolyn yn wahanol iawn i berson arferol, o ran sut mae'n meddwl, yn gweld, yn teimlo neu'n ymwneud ag eraill. Gall newidiadau yn y ffordd y mae person yn teimlo a chredoau gwyrngam am bobl eraill arwain at ymddygiad rhyfedd, sy'n gallu bod yn ofidus ac yn gallu cynhyrfu pobl eraill.  
[www.nhs.uk/Conditions/personality\\_disorder/Pages/Definition.aspx](http://www.nhs.uk/Conditions/personality_disorder/Pages/Definition.aspx)

- Seicolegwyr clinigol (1.50 cyfwerth ag amser llawn)
- Cynorthwyydd seicolegol dan hyfforddiant (1.00 cyfwerth ag amser llawn)
- Uwch ymarferydd gwaith cymdeithasol (1.00 cyfwerth ag amser llawn)
- Uwch therapydd galwedigaethol (roedd y swydd 1.00 cyfwerth ag amser llawn hon yn cael ei gwneud gan aelod staff o ysbyty arall y grŵp ar adeg yr arolygiad)

Technegwyr iechyd galwedigaethol (roedd dau o'r rhain yn mynd i gael eu cyflogi yn y dyfodol agos – fel y nodwyd o fewn Datganiad o Ddiben yr ysbyty).

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm amlddisgyblaethol yn cwrdd yn aml i drafod cynnydd cleifion. Roedd hyn er mwyn myfyrio ar arferion gofal a chryfhau dilyniant o ran gofal. Canfuom hefyd fod cleifion yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o therapïau eraill gan ddietegwyr, ffisiotherapyddion a phodiatregwyr, drwy atgyfeiriad, yn unol â'r angen a nodwyd. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu galluogi i gael mynediad at gymorth a chynghor gan amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol i wella neu gynnal eu hiechyd a'u lles.

### 3. Crynodeb

Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd yr ysbyty yn cael ei redeg gan Priory Healthcare and Partnerships in Care (Rhondda) Limited (enw'r darparwr ar 1 Rhagfyr 2016 ymlaen). O ganlyniad, roedd rhai agweddau gweinyddol ar y gwasanaeth eto i'w cytuno ac roedd y newidiadau cysylltiedig i gofrestrriad yr ysbyty gydag AGIC ar y gweill. Roedd hyn o ran yr unigolyn cyfrifol a benodwyd a gwybodaeth y cwmni, fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau.

Er gwaethaf y newid sefydliadol a amlinellwyd uchod, gwnaethom dderbyn sylwadau cadarnhaol iawn gan dîm y staff ynglŷn â sut yr oeddent yn cael eu cefnogi gan y rheolwr cofrestredig ac uwch staff. Yn debyg, gwnaeth y rheolwr cofrestredig ddisgrifio sut roedd staff yr ysbyty wedi croesawu'r newid, a oedd wedi arwain at ddarpariaeth barhaus o ofal a thriniaeth o ansawdd da.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Tŷ Cwm Rhondda yn cael ei arwain a'i reoli'n dda; darperir gwasanaethau gan dîm amlddisgyblaethol profiadol drwy ddefnyddio ystod gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau corfforaethol/lleol. Roedd trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu yn cael eu monitro'n rheolaidd a gwnaed newidiadau i wella'r gwasanaeth cyn belled ag y bo modd, gyda chefnogaeth a chyfraniad gan gleifion a staff.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion a siaradodd â ni'n fodlon iawn ar eu gofal a'u triniaeth, a dywedon nhw wrthym ba mor dda yr oeddent wedi cael eu cefnogi gan staff.
- Roedd staff y ward yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gwelsom eu bod yn ddigynnwrf iawn ac yn barchus i gleifion drwy gydol yr ymweliad.
- Gwelsom fod cryn bwyslais yn cael ei roi ar gynnwys cleifion mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth, yn ogystal ag agweddau o ran rhedeg yr ysbyty o ddydd i ddydd.

Mae'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn fel a ganlyn:

- Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/a fydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant o ran y cod ymarfer iechyd meddwl diwygiedig a hyfforddiant diweddarau mewn perthynas â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

- Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth cyn asesu cleifion ar gael yn yr holl gofnodion a gedwir ar ffurf electronig.
- Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig ddisgrifio'r camau a gymerwyd i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu danfon a'u casglu o'r ystafelloedd clinigol yn ddiogel.

Gellir gweld manylion pob un o'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio o fewn Atodiad A yr adroddiad hwn. Er nad yw ein canfyddiadau wedi arwain at roi hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd gallai methu â gwneud hyn olygu nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

#### **Urddas a Pharch (Safon 10)**

##### *Problemau cyffredinol*

Canfuom fod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal, a bod ganddynt eu hystafelloedd eu hunain gyda chyfleusterau en suite, yn ogystal â mynediad at fannau cymunol ac ymwelwyr, ar adegau o'u dewis eu hunain. Roedd yr ysbyty yn darparu gofal, triniaeth a chymorth i gleifion gwrywaidd yn unig.

Roedd Datganiad o Ddiben y darparwr cofrestredig hefyd yn disgrifio sut y byddai staff yr ysbyty yn cefnogi cleifion mewn ffyrdd a fyddai'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd y cleifion a siaradodd â ni a'r rhai a roddodd sylwadau i ni (o fewn holiaduron AGIC a gwblhawyd) yn datgan nad oedd ganddynt unrhyw faterion a oedd yn achosi pryder yn gyffredinol o ran eu preifatrwydd neu urddas. Dywedodd un claf wrthym nad oedd hawl ganddo ddefnyddio ei ffôn symudol oni bai ei fod ar absenoldeb Adran 17; fodd bynnag, roedd hyn yn cyd-fynd ag asesiadau risg unigol fel y nodwyd gan y staff.

Clywsom y staff yn siarad â chleifion mewn tonau tawel drwy gydol ein harolygiad a gofynnwyd am gydsyniad cleifion pan wnaethom ofyn i weld rhai ystafelloedd unigol. Hefyd, gwelsom y staff yn bod yn barchus i gleifion bob amser. Yn ogystal, dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus iawn o ran mynd at unrhyw aelod o staff am gyngor neu arweiniad, a'u bod nhw wedi derbyn cryn dipyn o help gyda'u gofal a'u triniaeth.

Datgelodd sgysiaid gyda'r rheolwr cofrestredig a'r staff ac archwiliad o'r trefniadau ymgysylltu cleifion/partneriaeth oedd ar waith y pwyslais mawr a roddir ar gynnwys cleifion a'u teuluoedd/cynrychiolwyr yn y gwaith o ddarparu gofal a rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, drwy ddefnyddio gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig yn briodol, ac anogaeth i gymryd rhan mewn amrywiaeth o gyfarfodydd 'cymuned fewnol'. Cyflawnwyd hyn hefyd drwy lenwi holiaduron cleifion yn rheolaidd, a arweiniodd at welliannau yn cael eu gwneud i'r bwydlenni a threfniadau cynllunio gofal.

Gwelsom fod y llawlyfr i gleifion wedi'i drefnu'n dda ac yn hawdd ei ddarllen, i gynorthwyo pobl i gael dealltwriaeth dda o'u hawliau a'r hyn y gallent ei ddisgwyl gan y gwasanaeth.

## **Amgylchedd (Safon 12)**

### *Problemau cyffredinol*

Rhoddwyd manylion i ni ynglŷn â gwelliannau cyfalaf yr oedd y rheolwr cofrestredig wedi gofyn amdanynt, ac roedd rhai ohonynt wedi cael eu cymeradwyo gan y darparwr cofrestredig (megis lloriau newydd yn yr orsaf nyrsys, a oedd wedi dechrau peri risg baglu, ac ailstrwythuro ystafell beiriannau'r ysbyty, am resymau diogelwch).

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd eu hunain y gallent eu cloi pe byddent yn dymuno. Roedd y staff, fodd bynnag, yn gallu agor y cloeau pe byddai argyfwng/digwyddiad. Roedd gan bob ystafell ddigon o le i storio eitemau personol unigolion, a dywedwyd wrthym fod cleifion wedi cymryd rhan wrth gytuno ar ddewis y lliwiau.

Gwelsom fod cleifion yn gallu treulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain, neu yn y mannau cymunol dynodedig. Roedd ystafelloedd y cleifion yn cynnwys larymau galw, ynghyd â rhybudd gweledol ar ffurf golau gwyrdd a oedd yn fflachio'n uniongyrchol y tu allan i ystafelloedd cleifion. Roedd larymau galw eraill wedi'u lleoli mewn mannau priodol yn y wardiau. Roedd hyn yn galluogi cleifion a staff i alw am gymorth, yn ôl yr angen. Roedd y drysau i'r holl ystafelloedd cleifion yn cynnwys panel arsylwi er mwyn i'r staff allu sicrhau bod cleifion yn aros yn ddiogel.

Roedd y byrddau gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn berthnasol i gleifion (megis gwasanaethau eiriolaeth, bwydlenni, a chyingor ynglŷn â bwyta'n iach).

Canfuwyd gennym fod gan gleifion fynediad at ddwy ardd ar wahân, a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu hannog i dreulio amser y tu allan pan oedd y tywydd yn caniatáu. Fodd bynnag, gwnaethom weld bod y ddwy ardd yn ymddangos yn ddiflas. Yn ogystal, roedd angen archebu dodrefn gardd newydd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cynlluniau ar waith i ailddatblygu'r ardd.

Roedd gan y ddwy ward ystafell ddynodedig ar gyfer ymwelwyr i alluogi cleifion i siarad â'u teuluoedd/ffrindiau mewn amgylchedd preifat, gyda mannau gwyllo priodol wedi'u cynnwys. Gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig a staff y wardiau bod angen gweddnewid ac ailaddurno'r ddwy ystafell hyn ychydig. Roedd gan gleifion fynediad at ystafell breifat hefyd, lle y gallent ddefnyddio'r ffôn a ddarperir. Yn ogystal, roedd ystafell ddiogel, ond ar

wahân, i fwrdd o fannau'r wardiau, lle y gallai'r cleifion dderbyn ymweliadau gan blant (ar ôl cynnal asesiadau risg perthnasol).

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau'r ystafell fwyta a gweld eu bod yn cynnwys cypyrddau cloadwy a ddefnyddiwyd i storio bwyd cleifion unigol nad oedd yn ddarfodus. Gwnaeth y cleifion gadarnhau eu bod yn gallu mynd i'r man hwn yn ystod y dydd.

Gwnaethom holi ynglŷn â pha drefniadau oedd ar waith i gefnogi cleifion a oedd yn ysmegu a dywedwyd wrthym fod y darparwr cofrestredig wedi sefydlu gweithdrefn sy'n caniatáu i gleifion ddefnyddio 'e-sigarennau'<sup>4</sup> tan fis Chwefror 2017. Roedd y cleifion a oedd yn gallu bod yn absennol o'r ysbyty (o dan Adran 17<sup>5</sup> y Ddeddf Iechyd Meddwl) yn gallu ysmegu y tu allan i'r ysbyty. Roedd y cleifion hynny nad oeddent yn gymwys ar gyfer absenoldeb Adran 17 yn derbyn cymhorthion er mwyn rhoi'r gorau i ysmegu. Rhoddwyd y trefniadau hyn ar waith er mwyn hyrwyddo iechyd a lles cleifion, yn unol â deddfwriaeth adeiladau di-fwg.

Nid oedd unrhyw gyfleusterau ymwahanu o fewn yr ysbyty; roedd timau'r wardiau'n cael eu hyfforddi i gefnogi cleifion drwy ddefnyddio technegau adnabyddus ar adegau pan oeddent yn profi ymddygiadau heriol.

Rhoddwyd larymau diogelwch i'r holl staff ac ymwelwyr i'w galluogi i alw am gymorth pe bai angen.

Ar wahân i'r pwynt yn y paragraff isod, canfuwyd bod amgylcheddau'r wardiau yn ddiogel.

### *Ward Cilliad*

Wrth inni gynnal ein taith o amgylchedd y ward, gwnaethom nodi mater diogelwch posibl o fewn ystafell glaf. Cafodd hwn ei amlygu i'r aelod staff a

---

<sup>4</sup>Mae **e-sigarennau** yn ddewis arall i ysmegu. Mae'r broses yn cynnwys ychwanegu gwres i hylif, sy'n creu anwedd. Mae'r defnyddiwr (ysmygwr, mewn cylchoedd sigarennau traddodiadol) yn derbyn ei ergyd nicotin drwy fewnanadlu'r anwedd, sydd bron yn ddiarogl.

<sup>5</sup> **Adran** o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) yw absenoldeb Adran 17 sy'n caniatáu i'r Clinigydd Cyfrifol roi caniatâd i glaf a gedwir i fod yn **absennol** o'r ysbyty. Dyma yw'r unig ffordd gyfreithiol y caiff claf a gedwir adael safle'r ysbyty.

oedd yn bresennol adeg hynny, yna adroddwyd i'r rheolwr cofrestredig er mwyn ystyried a rhoi sylw i'r mater.

Dywedwyd wrthym fod ystafelloedd y cleifion wedi cael eu hailaddurno yn y 12 mis diwethaf a gwelsom eu bod yn cynnwys dodrefn addas. Fodd bynnag, roedd angen ailaddurno mannau eraill o fewn y ward, gyda gwaith pren yn dangos arwyddion gweladwy o draul.

Gwelsom un ystafell y dywedwyd wrthym nad oedd neb wedi byw ynddi ers mis Awst 2016. Gwelwyd fod angen glanhau'r ystafell. Dywedwyd wrthym y byddai glanhau trwyadl yn cael ei drefnu cyn i glaf ei defnyddio.

Nid oedd peiriant golchi dillad y ward wedi bod yn gweithio ers pum diwrnod cyn ein harolygiad. Cadarnhaodd sgwrs gydag aelod o dîm y ward y byddai peiriant newydd yn cael ei danfon y diwrnod wedyn.

#### *Ward Clydwch*

Yn dilyn trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig, canfuom fod ystafelloedd cleifion yn mynd i gael eu hailaddurno yn ystod 2017 yn unol â'r rhaglen cynnal a chadw dreigl.

### **Maetheg (Safon 14)**

#### *Problemau cyffredinol*

Pan wnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion, roeddem yn gallu gweld bod eu hanghenion deietegol wedi cael eu hasesu a bod pwysau eu cyrff yn cael eu monitro.

Datgelodd trafodaethau â chleifion a staff y pwyslais a roddir hefyd ar 'fwyta'n iach' a defnyddio'r gampfa ar y safle o ganlyniad i'r fenter 'Mission Fit'. Dywedwyd wrthym mai rhaglen iechyd a lles corfforol oedd hon, gyda'r nod o helpu cleifion i wella eu ffitrwydd corfforol cyffredinol drwy eu haddysgu ynglŷn â ffyrdd o fyw iach a sesiynau ffitrwydd wedi'u teilwra i'r unigolyn (dros gyfnod o 12 wythnos). Roedd cleifion yn awyddus i ddweud wrthym sut yr oeddent wedi elwa ar y dull hwn.

Roedd cyfleusterau addas ar gael i gleifion yn y ddwy ward ar gyfer diodydd poeth ac oer, a chadarnhaodd cleifion eu bod yn gallu cael mynediad at gyfleusterau'r gegin drwy gydol y dydd.

Gwnaethom siarad â staff y gegin ac edrych ar fwydlenni cleifion, a chanfuom fod cynllun pedair wythnos wedi cael ei greu gan ddeietegydd. Yn ogystal,

dywedwyd wrthym fod bwydlenni eraill ar gael mewn ymateb i anghenion diwylliannol ac anghenion meddygol unigolion.

Canfuom hefyd fod cleifion yn cael eu hannog i fynychu unrhyw gyfarfodydd mewn perthynas â bwydlenni/darpariaeth bwyd er mwyn iddynt allu codi unrhyw bryderon neu wneud argymhellion. Dywedodd y cogydd wrthym hefyd ei fod yn ymweld â'r wardiau o bryd i'w gilydd er mwyn siarad â chleifion yn uniongyrchol fel modd o gasglu eu safbwyntiau a'u hawgrymiadau.

Gwelsom fod y bwyd yn edrych yn flasus pan oedd yn cael ei weini i gleifion. Dywedwyd wrthym hefyd fod cleifion yn gallu prynu byrbrydau rhwng 10.30 ac 11.30am bob bore. Roedd y cleifion hynny a oedd yn gallu gadael yr ysbyty ar absenoldeb Adran 17 hefyd yn gallu prynu eitemau bwyd yn ystod y cyfnodau hynny, yn unol â'u dymuniadau a'u hoffterau.

Roedd yr ysbyty wedi cael ei archwilio'n ddiweddar gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a rhoddwyd sgôr tair seren iddo. Pan wnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig am hyn, dywedwyd wrthym ei fod yn ei hanfod yn ymwneud â rhywfaint o welliant sydd ei angen i rannau o broses weinyddu eu Pwynt Rheoli Critigol Dadansoddi Peryglon<sup>6</sup> a bod y gwelliannau yn mynd rhagddynt.

---

<sup>6</sup> System rheoli prosesau yw'r Pwynt Rheoli Critigol Dadansoddi Peryglon sy'n nodi lle y gallai peryglon ddigwydd yn ystod y broses cynhyrchu bwyd ac mae'n rhoi camau gweithredu llym ar waith er mwyn atal y peryglon rhag digwydd.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

### **Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

#### *Problemau cyffredinol*

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol mewn perthynas ag wyth claf a oedd yn derbyn gofal o fewn y ddwy ward a gwelsom fod y tîm staff wedi eu llenwi yn unol â chod ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Yn fwy penodol, roedd cofnodion clir yn dangos bod cleifion yn cael eu hysbysu am eu hawliau a bod yr holl feddyginiaeth (o dan Adran 58 Deddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf)) wedi cael ei hawdurdodi'n briodol. Roeddem yn gallu cadarnhau bod cleifion wedi cael eu cefnogi wrth wneud cais am wrandawriad gan reolwr ynglŷn â statws eu hiechyd meddwl ac o ran Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl. Yn yr un modd, roedd adroddiadau rheolwr yr ysbyty yn fanwl iawn, gan nodi'n fanwl ei resymau am ategu'r ffaith y dylai claf barhau i gael ei gadw yn yr ysbyty.

Canfuom fod gan yr holl gleifion fynediad at eiriolwr iechyd meddwl annibynnol fel modd o hyrwyddo eu hawliau a'u dewisiadau.

Canfuom fod trefniadau absenoldeb Adran 17 yn cael eu rheoli'n dda. Er hynny, gwnaethom weld nifer o hen ffurflenni o fewn cofnodion ac awgrymu y dylid eu harchifio. Roedd hyn er mwyn sicrhau y byddai staff sy'n gweithio ar y ward yn gallu nodi'r cyfnod absenoldeb diweddaraf (a gefnogwyd gan awdurdodiad dilys).

Fodd bynnag, nid oedd ffurflenni ymgynghorai statudol<sup>7</sup> a oedd wedi cael eu cwblhau a'u sganio'n electronig wedi cael eu cadw ynghyd â gwybodaeth gan feddygon a benodwyd i roi ail farn. Gall hyn arwain at ddryswch/camgymeriad.

---

<sup>7</sup> Pan fod adrannau o'r Ddeddf Iechyd Meddwl sy'n gofyn am ganiatâd ac ail farn (57, 58 a 58A) yn cael eu cymhwyso, cyn rhoi tystysgrifau i gymeradwyo triniaeth, mae'n ofynnol i'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn ymgynghori â dau unigolyn (Ymgynghoreion Statudol), y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn nyrs ac ni all y llall fod yn nyrs nac yn feddyg. Rhaid i'r ddau ohonynt fod wedi bod yn ymwneud yn broffesiynol â thriniaeth feddygol y claf ac ni allai'r naill ohonynt fod y clinigydd sy'n gyfrifol am y driniaeth arfaethedig na'r Clinigydd Cyfrifol sy'n gyfrifol am ofal y claf. Dylai'r Ymgynghoreion Statudol sicrhau eu bod yn cadw cofnod o'u

### ***Diffyg cydymffurfio***

***Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig ddisgrifio'r camau a gymerwyd er mwyn sicrhau bod ffurflenni ymgynghoreion statudol ar gael yn rhwydd i'r staff fel modd o sicrhau dilynant o ran gofal a thriniaeth briodol i gleifion.***

Gwnaethom ganfod hefyd nad oedd y staff wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar o ran y Cod Ymarfer iechyd meddwl, a ddiwygiwyd yn 2016, na hyfforddiant diweddar y nghylch testun Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.<sup>8</sup>

### ***Diffyg cydymffurfio***

***Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/a fydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant o ran y cod ymarfer iechyd meddwl diwygiedig a hyfforddiant diweddar mewn perthynas â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.***

Datgelodd trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig hefyd y byddai'r gwasanaeth yn elwa ar gryfhau ei weithgaredd archwilio presennol sy'n ymwneud â monitro'r ffordd y mae'r Ddeddf yn cael ei chymhwyso. Byddai hyn yn cynorthwyo wedyn wrth nodi'r gwelliannau sydd eu hangen ar gam cynnar.

### ***Diffyg cydymffurfio***

---

hymgyngoriad â'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) a bod hyn yn cael ei gadw yn nodiadau'r claf. Ystyrir ei fod yn arfer da i gael ffurflen benodol ar gyfer cofnodi'r wybodaeth hon, a'i bod yn cael ei chadw ynghyd â'r tystysgrifau gan y Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, yn ogystal â chyda dogfennau Deddf Iechyd Meddwl y claf.

Mae Adran 57 yn berthnasol i driniaeth (niwrolawdriniaeth fel arfer), mae Adran 58 yn berthnasol i driniaeth gyda meddyginiaeth ar gyfer anhwylder meddyliol, ac mae Adran 58A yn berthnasol i driniaeth gyda therapi electrogynhyrfol.

<sup>8</sup> Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn amlinellu'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol; cydlynu a chynllunio ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd; asesiadau o anghenion hen ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd; eiriolaeth annibynnol ar gyfer unigolion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac unigolion eraill sy'n derbyn triniaeth claf mewnol ar gyfer iechyd meddwl; ac at ddibenion cysylltiedig.

***Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i gryfhau gweithgaredd archwilio presennol a'r cynnwys archwilio sy'n gysylltiedig â chymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl.***

## **Cynllunio a Darparu Gofal (Safon 8) – Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**

### *Problemau cyffredinol*

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn y ddwy ward, lle yr oeddent yn cael eu cadw a'u diweddarau'n electronig. Roedd y system feddalwedd a ddefnyddir yn glir ac yn hawdd ei defnyddio, ac roedd pob cofnod yn rhoi gwybodaeth am gynlluniau gofal a thriniaeth cleifion (yn achos cleifion o Gymru gan mai ond y Mesur Iechyd Meddwl oedd yn berthnasol iddynt) neu'r Dull Rhaglen Ofal sy'n ofynnol ar gyfer cleifion o Loegr.

Roedd y rhain yn fanwl ac yn unigoli'r asesiadau risg a chynlluniau gofal 12 wythnos a oedd ar waith ar gyfer pob claf, sy'n arwydd o gyfraniad amlddisgyblaethol parhaus i'w gofal a phwyslais ar fonitro a gwella eu hanghenion corfforol ac iechyd meddwl. Yn ogystal, roedd cynlluniau gofal perthnasol yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â chanlyniadau gofal (a elwir yn ddimensiynau bywyd fel arall)<sup>9</sup> fel y nodwyd yn y Mesur Iechyd Meddwl.

Gwelsom dystiolaeth gofnodedig yn nodi pwy oedd cydlynwyr gofal cleifion ac adolygiadau amserol o gynlluniau gofal a thriniaeth/dull y rhaglen ofal.

Fodd bynnag, wrth i ni edrych yn fanylach ar gofnodion cleifion, gwnaethom ganfod nad oedd ysgrifennu adroddiadau dyddiol yn digwydd yn aml, ac nid oedd yn rhoi tystiolaeth i ni o'r canlyniadau yn dilyn gweithgareddau hamdden a gynlluniwyd. Nid oeddem yn gallu dod o hyd i ddigon o wybodaeth ychwaith ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd gan gleifion o ddydd i ddydd, na'r heriau yr

---

<sup>9</sup> Dimensiynau bywyd. Mae'r adran hon o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn cyfeirio at wyth rhan allweddol o fywyd claf a dylid ei chynnwys fel rhan o'r Cynllun Gofal a Thriniaeth: cyllid ac arian; llety; gofal personol/lles corfforol; addysg a hyfforddiant; gwaith a galwedigaeth; rhianta neu gydberthnasau gofalgar; anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol; a thriniaethau meddygol a ffurfiau eraill ar driniaeth gan gynnwys ymyriadau seicolegol.

oeddent yn eu hwynebu. Yn ogystal, nid oeddem yn gallu dod o hyd i dystiolaeth a gofnodwyd cyn derbyn ymhlith yr holl gofnodion a welsom, a oedd yn golygu bod ychydig o wybodaeth am lwybr gofal cleifion yn aneglur o'r adeg derbyn.

### ***Diffyg cydymffurfio***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod gwybodaeth cyn derbyn cleifion wedi'i chynnwys yn yr holl gofnodion a gedwir yn electronig.***

### ***Diffyg cydymffurfio***

***Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod staff yn cofnodi canlyniadau a gweithgareddau dyddiol ar gyfer yr holl gleifion.***

Gwnaeth ein trafodaethau â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol dynnu sylw at 'goleg gwella' a oedd wedi'i sefydlu yn yr ysbyty. Roedd y syniad am goleg gwella yn ymwneud â chreu amgylchedd lle y gall pobl ddarganfod eu potensial a dysgu'r sgiliau i ddatblygu eu cryfderau a chyflawni eu nodau o fewn lleoliad ysbyty. Yn Nhŷ Cwm Rhondda, roedd hyn yn cael ei bwysleisio drwy ddatblygu gweithdai rhwng cleifion a'r staff ynglŷn â thestunau megis:

- Peidio â chynhyrfu
- Sgiliau manwerthu
- Arlwyo
- Sut ydw i'n ei wneud?

Er bod cynnwys cleifion yn hanfodol ar gyfer yr uchod (er bod eu cyfranogiad yn wirfoddol), dywedwyd wrthym fod y dull hwn yn gweithio'n dda.

### **Gofal sy'n Ddiogel ac yn Glinigol Effeithiol (Safon 7)**

Canfuom fod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu yn unol â chanllawiau a oedd wedi'u hen sefydlu a chanllawiau cenedlaethol/proffesiynol perthnasol, y cyfeiriwyd atynt o fewn dogfennau polisi perthnasol a oedd yn cefnogi staff yn eu gwaith.

Hefyd, roedd systemau a oedd wedi'u hen sefydlu ar gyfer adolygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn rheolaidd, neu ar yr adeg pan yr oedd angen newid. Golyga hyn fod gan staff fynediad at ganllawiau cyfredol i'w helpu i ofalu am eu cleifion.

### **Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed (Safon 11)**

Gwelsom fod gan staff fynediad at, a digon o wybodaeth ynghylch, polisi manwl cyfredol yr ysbyty ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roeddem ni hefyd yn gallu cadarnhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer yr adegau hynny pan oedd plant yn ymweld â chleifion yn yr ysbyty.

### **Atal a Rheoli Heintiau (Safon 13)**

Roedd pob man o'r ysbyty yn lân ac yn hylan yn ôl pob golwg ac yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo ym mhob ward/cegin a man ymolchi.

Gwelsom fod staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ar y pwnc hwn ac roedd cydymffurfiaeth gorfforaethol o ran hyn yn rhagori ar 98 y cant. Dim ond un aelod o staff nad oedd wedi cwblhau hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau Lefel 2 ar adeg yr arolygiad hwn a dywedwyd wrthym y byddai'r mater hwn yn derbyn sylw yn y dyfodol agos iawn.

### **Rheoli Meddyginiaethau (Safon 15)**

#### *Problemau cyffredinol*

Cawsom gopi o bolisi/llawlyfr rheoli meddyginiaeth y gwasanaeth a gwnaethom ystyried y trefniadau oedd ar waith, yn y ddwy ward.

Yn gyffredinol, canfuom fod gweithdrefnau a ddeallir yn dda ac a sefydlwyd o ran archebu meddyginiaethau, gweinyddu a storio meddyginiaeth, ac adrodd am ddigwyddiadau mewn perthynas â meddyginiaethau. Gwelwyd bod siartiau cyffuriau yn cael eu llenwi fel sy'n ofynnol, a bod cofnodion boddhaol yn cael eu cadw o ran y defnydd a'r stoc o gyffuriau a reolir.

Gwnaethom nodi'r angen i wella ar yr adegau hynny pan oedd cleifion yn mynegi eu bod am dderbyn pigladau yn eu hystafelloedd eu hunain. Yn benodol, canfuom y byddai'r nyrs gofrestredig yn paratoi'r pigiad ac yna'n trosglwyddo eitemau ar fwrdd agored o'r ystafell glinigol i ystafell y claf. Roedd gan hyn y potensial i arwain at ddamweiniau/digwyddiadau. Felly, gwnaethom

roi cyngor i'r uwch reolwyr ynglŷn â'r angen i gael cynhwysydd cloadwy ar gyfer trosglwyddo ac at ddibenion diogelwch ac y dylid gwneud diwygiadau i'r llawlyfr rheoli meddyginiaethau yn unol â hynny.

### ***Diffyg cydymffurfio***

***Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig ddisgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu trosglwyddo i ac o'r ystafelloedd clinigol yn ddiogel.***

Mae'r llawlyfr rheoli meddyginiaethau (Pwynt 20) yn cyfeirio at weithdrefn i amddiffyn diogelwch cleifion ac eraill, pe byddai hunan-weinyddu yn cael ei gymeradwyo gan y clinigydd cyfrifol. Serch hynny, nid oedd unrhyw gyfeiriad at bolisi ar wahân, na llawlyfr i'r staff ynglŷn â sut i wneud hyn. Dangosodd ein trafodaethau gydag aelod o staff mai nifer fach o gleifion fyddai'n gallu gweinyddu eu meddyginiaeth eu hunain. Oherwydd hyn, gwnaethom roi cyngor i'r staff a oedd yn bresennol yn ystod sesiwn adborth AGIC i ystyried sut y byddai'r gwasanaeth yn datblygu ei ddull o hunan-weinyddu fesul cam yn unol â'r polisi/llawlyfr cyfredol fel modd o gynyddu lefel annibyniaeth cleifion.

Roedd y ddwy ystafell glinigol yn lân ac yn drefnus iawn gyda gwybodaeth berthnasol ar gael i'r staff o ran rheoli meddyginiaeth.

### **Ward Clydwch**

Gwelsom nad oedd poteli meddyginiaeth a agorwyd wedi cael eu marcio â'r dyddiad pan gawsant eu hagar. Golyga hyn y byddai'n bosibl i'r feddyginiaeth gael ei gweinyddu o hyd y tu hwnt i'w dyddiad 'dod i ben'. Oherwydd hyn, gwnaethom dynnu sylw'r uwch staff at hyn a rhoi cyngor iddynt ystyried yr agwedd hon mewn perthynas â storio/gweinyddu meddyginiaeth, gan ychwanegu gwybodaeth berthnasol i arwain staff drwy'r llawlyfr/polisi meddyginiaeth.

Roedd drws yr oergell meddyginiaeth wedi torri ac nid oedd yn cau'n iawn. Mae'n bosibl y gallai hyn beryglu diogelwch y meddyginiaethau dan sylw a chael effaith niweidiol ar y cyffuriau, yr oedd angen eu cadw o fewn ystod tymheredd benodol. Daethpwyd â'r mater i sylw'r rheolwr cofrestredig, er mwyn cymryd camau gweithredu.

### ***Diffyg cydymffurfio***

***Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod cyffuriau sydd angen eu cadw mewn oergell o fewn Ward Clydwch yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol.***

## **Rheoli Risg ac Iechyd a Diogelwch (Safon 22)**

Yn dilyn archwiliad diogelwch tân yn yr ysbyty ar 28 Ebrill 2016 gan yr Awdurdod Tân ac Achub, roedd yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig gymryd rhai camau mewn perthynas â llwybrau ac allanfeydd argyfwng.

Felly, gofynnodd AGIC am yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r materion hynny a gwelwyd bod y gwasanaeth wedi cymryd camau priodol, a oedd yn cynnwys diweddarau ei asesiad risg tân (Tachwedd 2016) a datblygu cynllun gweithredu manwl.

Ystyriwyd bod trefniadau dod i mewn a gadael yr ysbyty yn briodol ac yn addas i'r cleifion a oedd yn derbyn gofal a thriniaeth.

Gwnaethom dderbyn copi o Gynllun Parhad Busnes cyfredol y gwasanaeth hwn (a adolygwyd ym mis Mehefin 2016). Roedd y ddogfen yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'r staff ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud mewn achos o fethiant pŵer llwyr, gollyngiadau dŵr a cholli gwres canolog dros dro (i enwi dim ond rhai enghreifftiau). Gwelsom hefyd gopïau o bolisi rheoli risg y gwasanaeth, a oedd yn nodi sut y byddai'r gwasanaeth yn darparu dull systematig a chydlynol i reoli risg, ynghyd â'r asesiad a'r rheolaeth o risg glinigol a'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch (2016-17). Canmolwyd y gwasanaeth am ei ddull o ran datblygu ac adolygu polisiau a'u cynnwys.

Roedd gweithdrefn digwyddiad difrifol safonol ar waith a oedd wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei deall yn dda. Roedd hon yn gweithredu fel canllaw i'r staff o ran yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud pe byddai digwyddiadau o'r fath yn digwydd, ac fel modd o ddysgu o ganlyniad i ddigwyddiadau o'r fath. Diben hyn oedd lleihau'r risg o ddigwyddiadau dro ar ôl dro.

## **Ymdrin â Phryderon a Rheoli Digwyddiadau (Safon 23)**

Gwnaethom drafod ac edrych ar gofnodion electronig a oedd ar waith er mwyn ymateb i, a rheoli, pryderon a digwyddiadau, a chanfuom fod y system yn glir ac yn fanwl. Er enghraifft, roedd pob pryder neu ddigwyddiad yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ynglŷn â'r digwyddiad, ac yn cynnwys manylion am yr aelod staff a'r claf (neu gleifion) a oedd yn bresennol, yr amser a'r lleoliad. Roedd yr wybodaeth honno'n cael ei chysylltu'n awtomatig â chofnodion cleifion. Dywedwyd wrthym y byddai'r holl ddata o'r fath a oedd yn ymwneud â Thŷ Cwm Rhondda yn cael ei ddadansoddi'n rheolaidd er mwyn chwilio am unrhyw dueddiadau/digwyddiadau dro ar ôl dro ac y byddai cymariaethau rhwng yr ysbyty hwn ac eraill o fewn y grŵp iechyd yn cael eu gwneud. Gwnaeth hyn gynorthwyo wrth wneud gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Gwnaethom ganfod ymhellach bod proses sefydledig ar waith er mwyn cofnodi ac ymateb i bryderon/gwynion anffurfiol. Er na wnaethom archwilio hon yn fanwl, dywedodd y staff wrthym nad oedd ganddynt unrhyw bryderon o ran y broses hon.

Gwnaeth un o'r cleifion niferus a siaradodd ag aelod o'n tîm ddisgrifio pryder yr oedd ganddo ynglŷn â'r gofal a ddarparwyd iddo gan gyfleuster gofal iechyd blaenorol. Ar ôl derbyn ei gydsyniad, rhannwyd y mater hwn â'r rheolwr cofrestredig a rheolwr y ward, a dywedon nhw wrthym y byddent yn siarad â'r claf dan sylw ac yn archwilio'r materion yn llawn.

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

Roeddem yn ymwybodol bod newid sefydliadol sylweddol wedi digwydd yn y gwasanaeth ers 1 Rhagfyr 2016. Roedd hwn yn ymwneud â'r ffaith bod Priory Healthcare wedi prynu'r ysbyty a'i asedau. O ganlyniad, roedd rhai agweddau gweinyddol ar y gwasanaeth eto i'w cytuno, ac roedd y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r broses cofrestru gydag AGIC wedi dechrau mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol newydd a benodwyd a gwybodaeth y cwmni, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau.

Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr cofrestredig profiadol a hirsefydlog (Cyfarwyddwr yr Ysbyty) a gyflogwyd yn Nhŷ Cwm Rhondda yn parhau yn ei swydd.

Er gwaethaf y newid sefydliadol a amlinellwyd uchod, gwnaethom dderbyn sylwadau cadarnhaol iawn gan dîm y staff ynglŷn â sut yr oeddent yn cael eu cefnogi gan y rheolwr cofrestredig. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig hefyd dynnu sylw at y ffaith bod y staff wedi mabwysiadu ymagwedd gadarnhaol i'r newid. Yn yr un modd, ni wnaeth y cleifion awgrymu wrthym eu bod nhw wedi nodi unrhyw leihad o ran lefel y gofal na'r cymorth yn ystod y cyfnod anodd hwn. Canmolwyd y rheolwr cofrestredig ac uwch gynrychiolwyr eraill am hynny yn ystod sesiwn adborth ein harolygiad.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd (Safon 1)**

Gwelsom fod systemau a phrosesau clir iawn ar waith er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, drwy raglen archwilio dreigl y cytunwyd arni a'i strwythur llywodraethu sefydlog, a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/a enwebwyd i gwrdd yn rheolaidd i drafod y canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion.

Casglwyd a chofnodwyd y trefniadau hynny o fewn system electronig gynhwysfawr, ac roedd gan staff gyfrifoldebau dirprwyedig i fewnbynnu data ynghylch holl elfennau gweithrediadau o ddydd i ddydd a gofal a thriniaeth cleifion.

Roedd gan uwch reolwyr a enwyd gyfrifoldebau penodol o ran sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn y lle blaenaf o ran darparu gwasanaeth a chanfuom fod y staff yn ymrwmo i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel. Gwnaeth ein trafodaeth â'r rheolwr cofrestredig ddatgelu ymhellach ei rhan hanfodol wrth fonitro prosesau llywodraethu ac adrodd ar lefel gorfforaethol.

Gwnaeth ein sylwadau a'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda staff dros gyfnod o ddau ddiwrnod ddangos yn glir eu bod nhw'n gweithio'n effeithiol fel tîm. Roedd hyn er gwaethaf yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu er mwyn diwallu anghenion cymhleth a chyfnewidiol y cleifion.

Rhoddwyd adroddiad ysgrifenedig i ni o'r ymweliad Rheoliad 28 diweddaraf gan y darparwr cofrestredig a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2016 (pan oedd y gwasanaeth yn cael ei redeg gan Partnerships in Care). Roedd yr adroddiad a'r cynllun sicrwydd/gweithredu yn dangos yn glir bod y gwasanaeth yn gwneud yn dda, ac yn tynnu sylw at yr hyn yr oedd angen ei wella (a phwy fyddai'n gyfrifol am wneud beth). Roedd hyn yn unol â'r rheoliadau.

Gwnaethom atgoffa'r rheolwr cofrestredig ynglŷn â'r angen i roi Datganiad o Ddiben diwygiedig i ni, er mwyn adlewyrchu'r newid o ran y darparwr cofrestredig a newidiadau gweithrediadol eraill - yn unol â'r rheoliadau.

### ***Diffyg cydymffurfio***

***Mae angen i'r gwasanaeth roi Datganiad o Ddiben diwygiedig i AGIC er mwyn adlewyrchu'r newidiadau o ran ei strwythur sefydliadol.***

### **Recriwtio i'r Gweithlu ac Arferion Cyflogaeth (Safon 24)**

Gwnaeth adroddiad 'Briffio Safle' Tŷ Cwm Rhondda, dyddiedig Rhagfyr 2016, amlinellu ei strategaeth recriwtio a chadw staff, a oedd yn cefnogi ei allu i recriwtio a chadw staff. Roedd y strategaeth yn cynnwys y canlynol:

- Gweithio'n hyblyg lle y bo'n bosibl
- Gwobrwyon cydnabod staff - 'Mynd y Filltir Ychwanegol'
- Raffl fisol i gydnabod perfformiad rhagorol
- Pecyn buddion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion recriwtio wyth aelod o staff, gan nodi'r angen i wella o ganlyniad i'r canlynol:

- Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pobl sy'n gwneud cais i weithio yn yr ysbyty yn rhoi manylion llawn o'u hanes gweithio, gan nodi'r misoedd/blynyddoedd. Bydd hwn yn galluogi'r tîm recriwtio i archwilio'r rhesymau am unrhyw fylchau o ran cyflogaeth.

- Roedd un o'r cofnodion nad oedd yn cynnwys tystiolaeth o ffurflen gais na curriculum vitae (CV), a oedd yn ei gwneud hi'n anodd darganfod y lefel o brofiad.
- Roedd un ffeil nad oedd yn cynnwys dau eirida gwaith, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau.

### ***Diffyg cydymffurfio***

***Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pob unigolyn a gyflogir yn yr ysbyty wedi mynd trwy broses recriwtio gadarn. Mae hon yn ffordd o amddiffyn cleifion rhag niwed, ac mae'n unol â'r rheoliadau.***

### **Cynllunio Gweithlu, Hyfforddiant, a Datblygu Sefydliadol (Safon 25)**

Yn ystod y deuddeng mis cyn yr arolygiad hwn, cafwyd tri o achosion pan oedd yr ysbyty wedi cyhoeddi nad oedd digon o nyrsys cofrestredig ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y cleifion ar yr adeg honno. Roedd hyn oherwydd nifer o ddigwyddiadau annisgwyl (er enghraifft, salwch staff annisgwyl) a rhoddodd y rheolwr cofrestredig sylw i'r mater. Mae AGIC wedi bod yn rhan o drafodaethau ac wedi cyfnewid gwybodaeth gyda'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y mater yn cael ei ddatrys yn briodol ac mewn da bryd.

Ers yr adeg honno, roedd y gwasanaeth wedi ffurfioli a chyflwyno ei 'Model Staffio Diogel' drwy ddefnyddio dulliau staffio a chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gyrff cenedlaethol. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod digon o nyrsys a staff clinigol eraill yn cael eu lleoli i fodloni anghenion iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff yr ysbyty. Gwnaeth ein trafodaethau â'r rheolwr cofrestredig awgrymu na fu unrhyw achlysuron pellach pan nad oedd y gwasanaeth wedi gweithredu heb ddigon o nyrsys cofrestredig.

Amlygodd trafodaethau ynglŷn â rheoli salwch/absenoldeb staff fod nifer o drefniadau addas ar waith i ddefnyddio nyrsys banc pan fo angen. Barnwyd bod nyrsys o'r fath yn rhan o'r tîm, ac roeddent yn cwblhau'r holl hyfforddiant a ddarperir gan y darparwr cofrestredig, er mwyn sicrhau bod y safonau gofal a ddisgwyliar yn parhau. Hefyd, ceisiwyd peidio defnyddio staff asiantaeth, fel y nodwyd, yn unol â disgwyliadau a gofynion comisiynwyr gofal iechyd ledled Cymru a Lloegr.

Yn ystod ein harolygiad deuddydd, roedd y staff wedi'u lleoli'n ddidrafferth yn yr holl fannau i gleifion, ac roedd yn ymddangos bod digon ohonynt yno i ddiwallu anghenion unigolion.

Canfuom mai rheolwyr y wardiau oedd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn gallu mynychu eu sesiynau goruchwyllo ac arfer myfyriol misol. Yn ogystal, roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff wedi derbyn 'pasbort goruchwyllo' i gofnodi'r cyfarfodydd hynny er mwyn cyfeirio yn ôl atynt yn rhwydd a monitro cydymffurfiaeth â gofynion corfforaethol.

Rhoddwyd cofnodion i ni a oedd yn cadarnhau bod y staff yn derbyn arfarniad blynyddol o'u gwaith; cyflawnwyd canrannau uchel o chwarter i chwarter ar draws tîm yr ysbyty.

Yn ystod 2016, roedd seicolegydd ffforensig dan hyfforddiant wedi cwblhau dadansoddiad o hyfforddiant staff yn Nhŷ Cwm Rhondda, ac roedd rhaglen hyfforddiant benodol wedi cael ei datblygu ac yn mynd rhagddi o ganlyniad i hyn. Fodd bynnag, nid oedd y rhaglen a welwyd yn cyfeirio at hyfforddiant mewn perthynas â'r Cod Ymarfer Iechyd Meddwl diwygiedig, na hyfforddiant diweddarau mewn perthynas â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (mae'r mater hwn wedi ei amlygu fel gwelliant ar dudalen 13 o'r adroddiad hwn).

Rhoddwyd manylion i ni ynglŷn â'r rhaglen sefydlu sydd ar gael i aelodau staff newydd a chanfuom fod y cynnwys yn briodol.

Gwnaethom gynnig y cyfle i'r staff gwblhau holiadur AGIC er mwyn holi eu safbwyntiau ynglŷn â'r hyn a oedd yn gweithio'n dda yn yr ysbyty, p'un a oeddent yn derbyn digon o gymorth yn eu gwaith, a ph'un a oedd angen gwneud gwelliannau i wasanaethau cleifion. Dychwelwyd pedwar o holiaduron wedi'u cwblhau. Gwnaeth un o'r ymatebwyr sôn bod angen mwy o gefnogaeth ar yr adegau hynny pan oedd digwyddiad claf, a nododd un arall fod angen cyfleoedd cymdeithasol/hamdden ar benwythnosau ynghyd â rhagor o le yn yr awyr agored i gleifion. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol o ran sut yr oedd tîm yr ysbyty'n gweithio gyda'i gilydd a'r ymdrechion a wnaed i gynnwys cleifion yn eu gofal a'u triniaeth cymaint ag y bo modd.

1.

## 5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Nhŷ Cwm Rhondda yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesurrol, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 6. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at wasanaethau o'r fath:

- Yn ddiogel
- Yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- Yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial
- Yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cynwion
- Yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Ar gyfer gwasanaethau annibynnol, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu ynghylch pryderon pwysig ac achosion difrifol o dorri rheoliadau trwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.<sup>10</sup> Mae'r canfyddiadau hyn (lle y maent yn berthnasol) wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

---

<sup>10</sup> Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

Gwasanaeth Iechyd Meddwl:

Diffyg Cydymffurfio – Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

Tŷ Cwm Rhondda

Dyddiad yr Arolygiad:

13 a 14 Rhagfyr 2016

| Rhif y Dudalen                      | Diffyg Cydymffurfio                                                                                                                                                                                                              | Safon / Rheoliad                                           | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Swyddog Cyfrifol | Amserlen   |
|-------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|------------|
| Ansawdd profiad y claf              |                                                                                                                                                                                                                                  |                                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |            |
|                                     | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.                                                                                                                                                                                |                                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |            |
| Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol |                                                                                                                                                                                                                                  |                                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |            |
| 14                                  | Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig ddisgrifio'r camau a gymerwyd er mwyn sicrhau bod ffurflenni ymgynghoreion statudol ar gael yn rhwydd i'r staff fel modd o sicrhau dilynant o ran gofal a thriniaeth briodol i gleifion. | Deddf Iechyd Meddwl 1983; Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 | <p>Mae ffurflenni ymgynghoreion statudol bob amser yn cael eu cwblhau yn dilyn ymweliad gan feddyg a benodwyd i roi ail farn ac maent yn cael eu cadw yn ffeiliau gwaith papur Cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl y cleifion, sy'n cael eu cadw gan Reolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl.</p> <p>Mae dogfennau cydsynio i driniaeth –</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• CO2 a CO3 (cleifion o Gymru)</li><li>• T2 a T3 (cleifion o Loegr)</li></ul> <p>– yn cael eu lanlwytho i adran 'Cyfreithiol' y nodiadau gofal (cofnodion electronig cleifion).</p> <p>Bydd ffurflenni ymgynghoreion statudol yn cael eu lanlwytho yn awr gyda'r dogfennau cydsynio i driniaeth ar adran 'Cyfreithiol' y nodiadau gofal (cofnodion cleifion electronig).</p> | JH               | 09/02/2017 |
| 14                                  | Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd i gryfhau gweithgaredd archwilio                                                                                                           | Deddf Iechyd Meddwl 1983                                   | Mae archwiliad o ddogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei gynnal bob chwe wythnos ar hyn o bryd a chaiff ei gwblhau gan Reolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl. Caiff hapsampl o ffeiliau eu harchwilio (hyd at bum ffeil) bob tro.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | JH               | Parhaus    |

| Rhif y Dudalen | Diffyg Cydymffurfio                                                                                                                                                                                                              | Safon / Rheoliad                                           | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Swyddog Cyfrifol | Amserlen                                          |
|----------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|---------------------------------------------------|
|                | presennol a'r cynnwys archwilio sy'n gysylltiedig â chymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl.                                                                                                                                            |                                                            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                  |                                                   |
|                |                                                                                                                                                                                                                                  |                                                            | Bydd canfyddiadau'r archwiliad yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod llywodraethu clinigol gyda chynlluniau gweithredu (yn ôl yr angen).                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | JH               | 08/02/2017                                        |
|                |                                                                                                                                                                                                                                  |                                                            | <p>Monitro'r 'dangosfwrdd' iechyd meddwl (Adran 22) i sicrhau bod y meysydd canlynol yn parhau i gydymffurfio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adran bresennol y Ddeddf Iechyd Meddwl</li> <li>• Dyddiad dechrau / dyddiad dod i ben</li> <li>• Rhybuddion (dau fis cyn dod i ben)</li> <li>• Cydsyniad i driniaeth</li> <li>• Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl</li> <li>• Gwrandawiadau rheolwyr</li> <li>• Adran 132 (Hawliau Cleifion)</li> </ul> | JH a DR          | 17/02/2017                                        |
| 14             | Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/a fydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant o ran y cod ymarfer iechyd meddwl diwygiedig a hyfforddiant diweddarau mewn | Deddf Iechyd Meddwl 1983; Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 | Trafodaethau cychwynnol gyda'r Clinigydd Cyfrifol a Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | TG               | 25/01/2017<br><br><b>Cwblhawyd:</b><br>25/01/2017 |

| Rhif y Dudalen | Diffyg Cydymffurfio                           | Safon / Rheoliad | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Swyddog Cyfrifol | Amserlen                                      |
|----------------|-----------------------------------------------|------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-----------------------------------------------|
|                | perthynas â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. |                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                  |                                               |
|                |                                               |                  | <p>Adolygu'r deunyddiau hyfforddiant presennol sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'u haddasu ar gyfer gwasanaeth Tŷ Cwm Rhondda.</p> <p><a href="http://www.wales.nhs.uk/sites3/tudalen.cfm?orgid=816&amp;pid=33958">http://www.wales.nhs.uk/sites3/tudalen.cfm?orgid=816&amp;pid=33958</a></p> <p>Mae fersiwn electronig o'r Cod Ymarfer diwygiedig wedi cael ei gyflwyno dros dro i'r tîm clinigol a'r wardiau tra bydd copi argraffedig yn cael ei gynhyrchu.</p> <p>Cysylltwyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy e-bost ynghylch: dyddiad cyflenwi copi newydd</p> | JH a TG          | 30/01/2017                                    |
|                |                                               |                  | Cytuno ar ddyddiadau hyfforddiant yn yr amserlen hyfforddiant mewnol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | JH               | 30/01/2017<br><b>Cwblhawyd:</b><br>26/01/2017 |
|                |                                               |                  | <p>Cyflenwi hyfforddiant fel y nodir.</p> <p>Dyddiadau hyfforddiant fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 24/03/2017</li> <li>• 07/04/2017</li> <li>• 21/04/2017</li> <li>• 05/05/2017</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | JH a NB          | 05/05/2017                                    |
| 16             | Rhaid i'r darparwr cofrestredig               | Safon 8;         | Caiff adroddiadau Asesiad Cychwynnol cleifion eu casglu o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a gwybodaeth cyn asesu sydd ar gael i'r tîm.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                  |                                               |

| Rhif y Dudalen | Diffyg Cydymffurfio                                                                                                                                                    | Safon / Rheoliad    | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Swyddog Cyfrifol | Amserlen                                          |
|----------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|---------------------------------------------------|
|                | hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod gwybodaeth cyn asesu cleifion ar gael yn yr holl gofnodion a gedwir ar ffurf electronig.                              | Rheoliadau 9 a 47.  | <p><i>Mae'r adroddiad Asesiad Cychwynnol ar gael i'r holl staff (i'w ddarllen yn unig) ar y gyriant a rennir ac yn y ffolder 'Claf Iechyd Meddwl'.</i></p> <p><i>Caiff copïau papur o'r wybodaeth cyn asesu eu harchifo fel y bo angen er mwyn cyfeirio atynt ac yn unol â pholisïau rheoli cofnodion.</i></p> <p>Bydd yr adroddiadau Asesiad Cychwynnol yn cael eu lanlwytho i'r cofnodion gofal dan yr adran 'Adroddiad Gweithredol' er mwyn ei gwneud yn hawdd i ymwelwyr allanol eu cyrchu.</p> | DR a JM          | 03/02/2017<br><br><b>Cwblhawyd:</b><br>26/01/2017 |
| 16             | Mae'n ofynnol bod y darparwr cofrestredig yn hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod staff yn cofnodi canlyniadau a gweithgareddau dyddiol ar gyfer pob claf. | Safon 8; Rheoliad 9 | <p><i>Trafodaeth â rheolwyr y ward ynghylch: adborth gan yr adroddiad a'r broses archwilio a gwblhawyd gan TG.</i></p> <p>Rheolwyr y wardiau i gwblhau archwiliad o gofnodion clinigol i sefydlu 'llinell sylfaen' o ran ansawdd cofnodion.</p> <p>Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal yn wythnosol wedi hynny.</p>                                                                                                                                                                                  | AK a BM          | 03/02/2017                                        |
|                |                                                                                                                                                                        |                     | <p>Trafod sicrhau ansawdd trwy oruchwyliaeth grŵp ac unigolion – rhoi cynlluniau rheoli perfformiad ar waith ble y bo angen.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | AK a BM          | 17/02/2017                                        |
|                |                                                                                                                                                                        |                     | <p>Trafodaethau arfaethedig mewn sesiynau goruchwyliaeth grŵp dros y pedair wythnos nesaf i raeadru gwybodaeth a chynlluniau i'r holl staff sy'n gweithio ar y wardiau.</p> <p>Sesiwn goruchwyliaeth grŵp</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                       | AK a BM          | Cwblhawyd<br>03/02/2017                           |

| Rhif y Dudalen | Diffyg Cydymffurfio                                                                                                                                                                               | Safon / Rheoliad         | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Swyddog Cyfrifol | Amserlen                                          |
|----------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|---------------------------------------------------|
|                |                                                                                                                                                                                                   |                          | arfaethedig nesaf: 27/01/2017                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                  |                                                   |
|                |                                                                                                                                                                                                   |                          | Codi'r mater yn y cyfarfod llywodraethu clinigol<br><br>Cyfarfod llywodraethu clinigol arfaethedig nesaf: 08/02/2017                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | TG               | 08/02/2017                                        |
|                |                                                                                                                                                                                                   |                          | Creu arweiniad i staff ynghylch: ysgrifennu nodiadau clinigol ansoddol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | AK a BM          | 10/02/2017                                        |
| 18             | Mae'n ofynnol bod y darparwr cofrestredig yn disgrifio'r camau a gymerwyd i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu cludo i'r ystafelloedd clinigol ac yn ôl yn ddiogel.                            | Safon 15;<br>Rheoliad 15 | <p><i>Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei monitro bob wythnos o leiaf gan yr Arweinydd Dysgu a Datblygu.</i></p> <p><i>Roedd y staff yn cydymffurfio 100% ar adeg yr arolygiad mewn perthynas â: Rheoli Heintiau Lefel 1</i></p> <p><i>Roedd hyfforddiant Rheoli Heintiau Lefel 2 pawb ond un aelod o staff yn gyfredol. Roedd hyn yn golygu bod 98% yn cydymffurfio.</i></p> <p>Mae'r aelod o staff dan sylw wedi cael ei gynghori i gwblhau hyfforddiant Rheoli Heintiau Lefel 2.</p> | MF               | 31/01/2017<br><br><b>Cwblhawyd:</b><br>30/01/2017 |
| 18             | Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod cyffuriau sydd angen eu cadw mewn oergell o fewn Ward Clydwch yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol. | Safon 15;<br>Rheoliad 15 | Prynwyd blychau storio diogel y gellir eu cloi ac sy'n cynnwys blychau offer miniog, rhaniadau ac ati.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | TG               | 20/01/2017<br><br><b>Cwblhawyd:</b><br>20/01/2017 |

| Rhif y Dudalen                      | Diffyg Cydymffurfio                                                                                                               | Safon / Rheoliad    | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                 | Swyddog Cyfrifol | Amserlen                                          |
|-------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|---------------------------------------------------|
|                                     |                                                                                                                                   |                     | Protocol wedi cael ei greu ar gyfer staff mewn perthynas â defnyddio blwch storio'n ddiogel                                                                                                                                                                                                       |                  | 23/01/2017<br><br><b>Cwblhawyd:</b><br>31/01/2017 |
|                                     |                                                                                                                                   |                     | Protocol a blychau wedi eu rhoi ar waith ar y wardiau                                                                                                                                                                                                                                             |                  | 27/01/2017<br><br><b>Cwblhawyd:</b><br>03/21/2017 |
|                                     |                                                                                                                                   |                     | Adolygiad o oergell yr ystafell glinig gyda'r adran Cynnal a Chadw.<br><br><i>Mae staff y ward yn cofnodi tymheredd yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod tymheredd digonol yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod dros dro o atgyweirio/amnewid yr oergell.</i>                                           |                  | 20/01/2017<br><br><b>Cwblhawyd:</b><br>20/01/2017 |
|                                     |                                                                                                                                   |                     | Cysylltu â chyflenwyr yr oergell ynglŷn â'r pryniant diweddar a'r gwarantiad<br><br><i>Mae'r oergell yn dal dan warantiad. Mae'r cyflenwyr wedi cytuno i atgyweirio/amnewid yr oergell. Byddant yn darparu oergell arall yn y cyfamser.</i><br><br><i>Cyrhaeddodd oergell arall ar 31/01/2017</i> |                  | 30/01/2017<br><br><b>Cwblhawyd:</b><br>23/01/2017 |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth |                                                                                                                                   |                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                  |                                                   |
| 21                                  | Mae angen i'r gwasanaeth roi Datganiad o Ddiben diwygiedig i AGIC er mwyn adlewyrchu'r newidiadau o ran ei strwythur sefydliadol. | Safon 1; Rheoliad 6 | Adolygu a diweddarau'r Datganiad o Ddiben fel y bo angen.<br><br><i>Mae gan dim cydymffurfio Priory gopi drafft o'r Datganiad o Ddiben diwygiedig ar hyn o bryd</i>                                                                                                                               | TG               | 03/02/2017<br><br><b>Cwblhawyd:</b><br>06/02/2017 |

| Rhif y Dudalen | Diffyg Cydymffurfio                                                                                                                                                                                                                                | Safon / Rheoliad                         | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Swyddog Cyfrifol | Amserlen                                                  |
|----------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|-----------------------------------------------------------|
| 22             | Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod pob unigolyn a gyflogir yn yr ysbyty wedi mynd trwy broses recriwtio gadarn. Mae hon yn ffordd o amddiffyn cleifion rhag niwed ac yn unol â'r rheoliadau. | Safon 24;<br>Rheoliad 21<br>ac Atodlen 2 | <p><b>Staff presennol:</b> lle ceir bylchau mewn hanes cyflogaeth, gofynnir am esboniad ysgrifenedig a/neu Curriculum Vitae (CV) cyfredol.</p> <p>Archwilio pob ffeil personél yr adran Adnoddau Dynol i ganfod pa wybodaeth sydd ar goll.</p>                                                                                                                                                                                          | HS a SW          | <p>14/02/2017</p> <p><b>Cwblhawyd:</b><br/>03/02/2017</p> |
|                |                                                                                                                                                                                                                                                    |                                          | <p><i>Nid oedd un cofnod yn cynnwys tystiolaeth o ffurflen gais na Curriculum Vitae (CV), a oedd yn ei gwneud yn anodd pennu lefel profiad y gweithiwr</i></p> <p>Adnoddau Dynol i archwilio ffeiliau personél mewn perthynas â: gwybodaeth ar goll.</p>                                                                                                                                                                                |                  | <p>14/02/2017</p> <p><b>Cwblhawyd:</b><br/>03/02/2017</p> |
|                |                                                                                                                                                                                                                                                    |                                          | <p>Cysylltu â staff (yn dilyn yr archwiliad) i ddarparu gwybodaeth berthnasol.</p> <p><b>Ceisiadau hanesyddol:</b><br/>Gofyn am Curriculum Vitae (CV) cyfredol yn adolygol.</p> <p><i>Mae ceisiadau Partnerships in Care yn cael eu cwblhau ar-lein. Caiff y rhain eu hargraffu os na ddarperir Curriculum Vitae (CV) gan ymgeiswyr.</i></p> <p><i>Caiff ymgeiswyr newydd heb Curriculum Vitae (CV) / ffurflen gais eu gwrthod.</i></p> | HS a SW          | 28/02/2017                                                |

| Rhif y Dudalen | Diffyg Cydymffurfio | Safon / Rheoliad | Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Swyddog Cyfrifol | Amserlen   |
|----------------|---------------------|------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|------------|
|                |                     |                  | <p><i>Roedd un ffeil nad oedd yn cynnwys dau eirda gwaith, fel sy'n ofynnol dan y rheoliadau</i></p> <p><i>Ers i Partnerships in Care gaffael y gwasanaeth ym mis Ebrill 2015, mae dau eirda i'w gweld yn ffeil pob gweithiwr 'newydd'.</i></p> <p>Lle y ceir un geirda yn unig, bydd Adnoddau Dynol yn ysgrifennu datganiad (ceisiadau hanesyddol / ffeiliau cyn mis Ebrill 2015).</p> | HS a SW          | 28/02/2017 |

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (llythrennau bras):** Therisa Galazka

**Teitl:** Rheolwr Cofrestredig

**Dyddiad:** 30/01/2017

**Diweddarwyd:** 07/02/2017